



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

# Gwrandawiadau

## Cyhoeddus:

### Bangor

Trawsgrifiad o'r Gwrandawriad Cyhoeddus

## Sain Bangor

### Allwedd

SP: Steven Phillips  
AC: Andrew Clements  
SW: Shereen Williams  
CC: Catherine Cracknell  
GB: Glenys Baker  
CJ: Clive James  
EW-J: Elin Walker-Jones  
LT: Ludwig Thouple  
JR: John Rooney


[Mae'r trawsgrifiad yn dechrau ar 00:00:00]

SP: Fy enw i yw Steven Phillips, rwy'n un o bedwar Comisiynydd Cynorthwyol a benodwyd i gynorthwyo'r Comisiwn Ffiniau yn yr arolwg hwn. Mae un o'm cydweithwyr, Andrew Clements, yn eistedd i'r dde imi, ac i'r chwith i mi mae Shereen Williams, Ysgrifennydd yr Arolwg.

Rydym yma, neu ein rôl ni, yw asesu'r cynrychiolaethau a gyflwynir a gwneud argymhellion i'r Comisiynwyr ar unrhyw newidiadau sy'n briodol, yn ein barn ni, i'r cynigion cychwynnol, a gyhoeddwyd fis Medi diwethaf ac a fu'n destun cyfnod ymgynghori cyn y Nadolig, yr hydref diwethaf. Rydym bellach yn cynnal ail gyfnod ymgynghori, sy'n rhedeg hyd at 30 Mawrth, pan fydd y gwrandawriad cyhoeddus terfynol yn cael ei gynnal yn Aberystwyth. Dyma'r pedwerydd o bum gwrandawriad ledled Cymru. Rydym yma, yn sylfaenol, i ddadansoddi'r dystiolaeth, nid i drafod rhinweddau, neu fel arall, y cynigion cychwynnol. Nid yw Andrew, na minnau na'r ddau gomisiynydd arall wedi chwarae unrhyw ran yn y gwaith o lunio'r cynigion hynny. Rydym yn trin pob cynrychiolaeth yn gyfartal, p'un a ydynt wedi'u gwneud yn ysgrifenedig, ar lafar, yn Gymraeg neu'n Saesneg. Byddwn yn cwblhau'r gwrandawriadau cyhoeddus yn ddiweddarach y mis hwn, a gellir cyflwyno cynrychiolaethau ar-lein drwy wefan y Comisiwn. Fy mwriad yw cynnal y gwrandawriad hwn mor anffurfiol â phosibl. Byddwn yn gofyn i siaradwyr ddod i'r ddarlithfa, mae gennych ddeng munud, ac ar ôl wyth munud cewch ryw fath o rybudd dau funud gan un o'm cydweithwyr, ond byddem yn gofyn i chi glywed unrhyw bwyntiau sydd angen eglurhad pellach, naill ai gan y panel neu gan aelodau'r gynulleidfa, ond nid oes llawer iawn o bobl yma ar hyn o bryd. Felly, pe gallech ddod i'r ddarlithfa, rhowch eich enw, eich ardal breswyl, nid eich cyfeiriad, dim ond yr ardal, fel y gallwn ddeall pa ardal benodol sy'n ffocws i'ch cynrychiolaethau. A dywedwch p'un a ydych yn siarad fel unigolyn, neu os oes gennych gysylltiad gwleidyddol neu unrhyw ymlyniad arall. Felly, oni bai bod Shereen eisiau ychwanegu unrhyw beth o'i safbwynt hi, symudwn ymlaen.

[00:02:43]

SW: lawn, bore da. Er mwyn egluro, mae'r trafodion heddiw yn cael eu ffrydio'n fyw ac mae recordiad yn cael ei wneud at ddibenion trawsgrifio. Fel y gwyddoch, mae Senedd y DU wedi penderfynu y bydd pob etholaeth yn y DU yn cynnwys dim mwy na 105% a dim llai na 95% o gwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr. Lansiodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ym mis Medi, a chawsom 1,211 o



gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd mwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol, dyma rai o'r uchafbwyntiau, yn arbennig ar gyfer Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru. Cefnogwyd etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn gyffredinol yn y cynrychiolaethau a ddaeth i law, ond roedd gwrthwynebiadau ynghylch trosglwyddo cymuned Llangynnwr i etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dadlau y dylid cynnwys cymuned Llangynnwr yn etholaeth Caerfyrddin. Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Aberconwy, a Dwyfor Meirionnydd, ac roedd cynrychiolaethau yn dadlau y dylai Bangor, y cynigir ei gosod yn Aberconwy, gael ei chynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaeth Arfon. Roedd y prif wrthwynebiadau i etholaeth arfaethedig Wrecsam yn deillio o gynnwys Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth gyfagos Alun a Glannau Dyfrdwy. Roedd ymatebwyr yn dadlau y dylai'r cymunedau hyn aros yn Wrecsam. Roedd cefnogaeth i etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli, er bod rhai cynrychiolaethau a ddaeth i law wedi nodi y byddai'n well ganddynt gael etholaeth wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar awdurdod lleol Sir Penfro. Roedd y prif wrthwynebiadau mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Delyn yn ymwneud â'r enw, gyda'r enw Dwyrain Clwyd yn cael ei ffafrio yn ei le. Roedd nifer o gynrychiolaethau yn anghytuno ag etholaeth arfaethedig Clwyd. Roedd y dadleuon yn amrywio, gan gynnwys gosod Llandrillo-yn-Rhos yng Nghlwyd yn lle Llandrillo a Chorwen, Rhuthun, Prestatyn a Dyserth. Roedd y dadleuon yn erbyn etholaethau arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy, a Delyn, yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnwys y Fflint a Bagillt o fewn Delyn a theimlwyd y dylent fod yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy.


Mae'r Comisiynydd yn edrych ymlaen at dderbyn rhagor o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn a bydd yn cefnogi'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn eu hargymhellion ar gyfer y cynigion diwygiedig. Gobeithiwn gyhoeddi ein cynigion diwygiedig ym mis Hydref eleni. Diolch am wrando ac am roi o'ch amser i ni heddiw. Rwy'n trosglwyddo'r sesiwn yn ôl at y cadeirydd er mwyn iddo allu dechrau gwahodd y siaradwyr.

SP: Diolch i chi, Shereen. Mae'r llawr yn agored i chi.

CC: Fy enw yw Catherine Cracknell. Rwy'n dod o etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy, roeddem yn digwydd bod i ffwrdd ar wyliau pan gynhaliwyd gwrandawriad Wrecsam, felly rydym wedi dod yma. Rwy'n siarad fel unigolyn, rwy'n aelod o'r blaid Geidwadol, ond nid wyf o reidrwydd (chwerthin) yn cefnogi popeth a ddywedwyd gan y blaid.

[00:05:39]

Fy mhrif broblem ag Alun a Glannau Dyfrdwy yw cynnwys y ddwy ward hynny o Wrecsam yn etholaeth Sir y Fflint. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr rhesymegol. Rwy'n byw yn yr ochr honno o Alun a Glannau Dyfrdwy, rwy'n byw yn ward Treuddyn sydd wedi'i lleoli rhwng Delyn, Wrecsam, a Glannau Dyfrdwy. Rydym yn union ar y ffiniau. Mae fy mab yn mynychu'r Sgowtiaid yn etholaeth Bwlchgwyn, sydd ym Mrymbo, dros y ffin. Ond nid oes unrhyw gysylltiadau, mewn gwirionedd. Mae Sir y Fflint, gan fod Alun a Glannau Dyfrdwy yn cynnwys Sir y Fflint yn unig, yn gwneud synnwyr llawer mwy rhesymegol. Rwy'n meddwl fy mod wedi gweithio hyn allan, ac nid wyf yn gwybod os oes gennyf y niferoedd yma, ond rwy'n meddwl,



ie, pe baech yn cynnwys y ddwy ward hynny o Wrecsam, yr hyn rydych yn ei wneud yw dweud mai dim ond saith y cant o'r etholwyr yn Alun a Glannau Dyfrdwy fydd yn dod o Wrecsam, a bydd 93% o Sir y Fflint; nid yw'n gweithio, ni fyddant fyth yn teimlo'n rhan ohoni. Nid yw'n mynd i wneud unrhyw synnwyr rhesymegol. Mae'r ysgolion, ac wrth ymdrin â ffiniau sirol, nid yw pobl yn croesi'r ffiniau hynny ac nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol. Rwy'n cynnig ein bod gosod y ddwy ward hynny... . Rwyf wedi rhoi'r cyfan ar bapur, felly mae hyn yn llythrennol yn dilyn yr hyn a gyflwynais yn ysgrifenedig, sef y dylem roi'r ddwy ward hyn yn ôl yn Wrecsam. Rwy'n deall bod sgil-ffeithiau, felly gweithiais ar y cynnig; daw Alun a Glannau Dyfrdwy yn rhy fach wrth goli'r ddwy ward, Brymbo a Mwynglawdd. Ond byddai'n ddilys i ni gymryd dwy ward, sef Northop a Northop Hall, o Ddelyn a'u hychwanegu at Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae cysylltiadau cymunedol cryf yn bodoli, ac yn wir, nid yw'r rhan fwyaf o bobl hyd yn oed yn gwybod ble mae'r ffiniau yn Sir y Fflint, ac mae'n gwneud synnwyr rhesymegol i'w cynnwys yno. Mae'r sgil-ffeithiau yn fach iawn oherwydd mae Delyn wedi'i gorgynrychioli, mae ar lefel uchaf yr ystod a ganiateir. Os cymerwn yr etholwyr hynny allan o Ddelyn a'u gosod yn Alun a Glannau Dyfrdwy, mae'n cydbwysu, ac nid oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau pellach i'r cynnig ar gyfer etholaeth Delyn fel y bydd yn gwneud synnwyr. Ceir sgil-ffeithiau o ran etholaeth Wrecsam, oherwydd rydym wedi ychwanegu ati. Yn fy nghynnig i, rwyf wedi nodi pa wardiau y gallwn eu hepgor, ond nid oeddwn yn deall, mewn gwirionedd, nid wyf yn gyfarwydd iawn â'r ardal, a gallai fod problem â wardiau Pant, rwy'n meddwl; ond fy mhrif bwynt yw y dylem geisio cadw Sir y Fflint a Glannau Dyfrdwy fel Sir y Fflint yn ei chyfanrwydd. Byddai'r newid yn symud etholwyr yn ddianghenraid, ac nid ydynt yn teimlo fel rhan o'r gymuned, ni fyddant fyth... Maen nhw'n teimlo fel rhan o Wrecsam, nid ydynt yn teimlo fel rhan o'r Fflint, o Alun a Glannau Dyfrdwy, ac ni fydd yn drefniant synhwyrol, yn drefniant da. Fel y dywedais, yn y cynnig ysgrifenedig, gweithiais y cyfan allan, fel bod yn niferoedd yn gweithio, felly nid yw ar hap, nid wyf yn hoffi hwn, nid oes gennyf wrthgynnig cyflawn, oherwydd mae'n gweithio allan felly. Ond y prif wrthwynebiad yw er mwyn cadw'r ddwy ward hynny sy'n perthyn i Wrecsam, yn etholaeth Wrecsam. Maen nhw'n teimlo'n fwy fel rhan o Wrecsam, maen nhw eisiau aros yn Wrecsam, nid ydym eisiau eu gosod yn Alun a Glannau Dyfrdwy oherwydd mae hynny'n corddi'r dyfroedd, ac mae'n gwneud bywyd yn llawer symlach. Nid wyf yn gwybod os oes unrhyw beth arall y mae angen i mi ei ychwanegu at hynny.

SP: Diolch yn fawr iawn i chi.

AC: Pa ddwy ward yw'r rhain? Ni chlywais yr hyn a ddywedoch, mae'n ddrwg gen i.

CC: Y ddwy ward fyddai Brymbo a Mwynglawdd, sydd...


AC: Na, mae'n ddrwg gennyf, y rhai a gaiff eu symud o...

CC: Y rhai y byddwn yn dymuno eu symud fyddai wardiau...

SP: Northop a Northop Hall.

CC: Northop a Northop Hall, ac rwyf hefyd...

[00:10:11]



AC: Dyna'r rhai yn Nelyn?

CC: Ie, maen nhw'n mynd o Ddelyn i... rwy'n ceisio cyfrifo hyn... Mae gen i'r rhifau wedi'u nodi...

AC: O, iawn.

CC: Mewn gwirionedd... iawn, maint etholaeth arfaethedig Delyn yn y cynnig cyntaf yw 76,074 o etholwyr. Gellir ymdopi â symud Northop a Noprthop Hall, a chanlyniad fy nghynnig ar gyfer Delyn yw 73,247 o etholwyr, sydd o fewn y paramedrau a ganiateir. Felly, rydym yn cymryd y ddwy ward hyn allan o Ddelyn, gan wneud Delyn ychydig yn llai, a'u hychwanegu at Alun a Glannau Dyfrdwy, ond wedyn rydym yn gosod dwy ward Brymbo a Mwynglawdd yn Wrecsam, ac mae hynny'n cael yr effaith ein bod... . Rwyf wedi nodi hyn ar bapur, a ydych chi eisiau i mi ddarllen hyn yn uchel, yr hyn roeddwn yn ei gynnig ar gyfer Wrecsam? Ond fy mhrif bryder yw Alun a Glannau Dyfrdwy...

SP: Na, mae'n iawn.

CC: Mae'r manylion yn gynnil, ond mae'r cyfan wedi'i nodi yn y cynnig.

AC: Hyfryd, diolch i chi.

SP: Diolch yn fawr i chi.

CC: Iawn.

AC: A oes unrhyw un yn y gynulleidfa sydd eisiau eglurhad ar unrhyw bwyntiau?

SP: Na, diolch yn fawr iawn i chi, yn wir.

CC: Iawn, diolch i chi. A ydych chi eisiau hwn, cofnod ar bapur...

SP: Ie, byddai hynny o gymorth.

CC: Nid ydynt yn y drefn briodol, felly rhowch eiliad i mi.

SW: Eich taflen bresenoldeb yw hon.


SP: Mmm?

SW: Eich taflen bresenoldeb.

CC: Dyna'r cynnig ar bapur. Efallai y byddwch eisiau, nid oes rhifau ar y tudalennau, felly dylech eu styffylu at ei gilydd.

AC: Iawn, diolch i chi.

[00:11:59]



SP: Mae hynny'n ddefnyddiol.

AC: Diolch yn fawr i chi.

CC: Diolch i chi.

SP: Rwy'n meddwl bod ein siaradwr nesaf yma, mae croeso i chi, mae ychydig yn gynnar, os hoffech, neu, a oeddech chi eisiau siarad, syr?

X: Na, dwi ddim.

SP: Iawn.

X: A fydd hi'n iawn i ni fynd, nawr?

SP: Ydi, mae hynny'n iawn. Diolch yn fawr iawn i chi am fod yn bresennol.

CC: Diolch.


AC: Diolch.

SP: Af i ddim drwy'r holl gyflwyniad rhagarweiniol a golloch, efallai; ond pe gallech ddod at y ddarlithfa, a rhoi eich enw, a'ch ardal breswyl; nid eich cyfeiriad, o reidrwydd, a ph'un a ydych yn siarad fel unigolyn, neu os oes gennych unrhyw ymlyniad sefydliadol. Mae'r llawr yn agored i chi.

GB: Mae hwn yn gynrychiolaeth gan Gyngor Tref Bae Colwyn. Ni allai fy nghydweithiwr a'r clerc, [anghlywadwy 00:12:56] Earley ddod gyda mi'r bore yma. Bore da, fy enw i yw'r Cynghorydd Mrs Glenys Baker, rwyf wedi byw yn Llandrillo-yn-Rhos ers deng mlynedd. Mae Llandrillo-yn-Rhos yn rhan o ardal ddaearyddol Cyngor Bae Colwyn. Rwyf wedi bod yn gynghorydd tref ar y cyngor hwn dros y saith mlynedd diwethaf, yn cynrychioli ward Llandrillo-yn-Rhos. Mae Dinerth a rhan o ward Rhiw hefyd o fewn Llandrillo-yn-Rhos.

00:13:31]

Rwy'n cynrychioli'r cyngor tref heddiw, a diolch i chi am wahodd a chaniatáu i gynrychiolydd gyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i ffiniau seneddol sy'n effeithio ar Orllewin Clwyd. Mae holl ardal Cyngor Tref Bae Colwyn o fewn etholaeth seneddol Gorllewin Clwyd ar hyn o bryd. Bydd y cynigion presennol yn gwahanu wardiau Llandrillo-yn-Rhos, gan eu gosod yn etholaeth newydd Aberconwy, oddi wrth weddill wardiau Cyngor Tref Bae Colwyn, a fyddai'n cael eu lleoli yn etholaeth Clwyd mewn etholiadau seneddol yn y dyfodol. Mae Llandrillo-yn-Rhos yn rhan o ardal adeiledig ddi-dor sy'n ffurfio rhan o dref Bae Colwyn, sydd â chysylltiadau hanesyddol hir a di-dor â Llandrillo-yn-Rhos. Mae ffin orllewinol ardal y cyngor wedi'i dynodi gan nant. Esgusodwch fi, nid yw fy Nghymraeg yn wych, yr Afon Ganol, sy'n rhedeg trwy ardal werdd heb unrhyw adeiladau. Y nant hon oedd y ffin rhwng siroedd hanesyddol Dinbych a Chaernarfon, ac ar hyn o bryd, dyma'r ffin rhwng siroedd seremonïol Clwyd a Gwynedd. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn, byddai'n chwalu'r ffin ddaearyddol gref a hirsefydlog hon. Yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol, mae Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos wedi'u



cydbblethu'n gryf, ac er enghraifft, mae clwb criced Bae Colwyn, a'r clwb rygbi a'r clwb hwylio, wedi'u lleoli'n ffisegol yn Llandrillo-yn-Rhos. Ac mae Clwb Rotari Bae Colwyn yn cynnal ei gyfarfodydd mewn tafarn hynafol yn Llandrillo-yn-Rhos, sef y Rhos Fynach.

Mae'r cynghorwyr tref yn trafod materion lleol ledled Bae Colwyn, a chynrychiolir y dref ar lefel arall ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gan gynnwys Llandrillo-yn-Rhos. Ni waeth pa ward y mae cynghorwyr yn ei chynrychioli, ceir digwyddiadau, digwyddiadau cymdeithasol, fel Cymru yn ei Blodau a Cholwyn yn ei Blodau, ac rydym wedi ennill... mae Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn wedi ennill; hefyd, penwythnosau'r 1940au, Caffis, Coffi a Cheir Clasurol ar y Prom, llwybrau celf a cherfluniau, sy'n mynd trwy ardaloedd gwahanol. Cynhelir marchnadoedd, ffeiriau Nadolig, ceir goleuadau, ac yn ogystal, mae arena chwaraeon fawr Eirias a ddefnyddir ar gyfer nosweithiau gydag, er enghraifft, Tom Jones, ac mae hyn yn cwmpasu cymaint o agweddau ar ein cymuned glan môr unedig. Nid oes unrhyw ysgolion uwchradd yn Llandrillo-yn-Rhos, mae mwyafrif y myfyrwyr o'r oedran hwn yn mynychu'r ysgolion ym Mae Colwyn, sydd eto'n atgyfnerthu ein cysylltiadau diwylliannol ar gyfer y dyfodol. Mae torri'r rhain o ran cynrychiolaeth ar lefel seneddol yn ymddangos yn annealladwy ac afresymegol, gan arwain at drigolion â chysylltiadau daearyddol, cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol o fewn yr un ardal drefol gymharol fach, yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Seneddol gwahanol. Fel cyngor tref, dadleuwn yn gryf y dylai ein cymuned fach unedig o drigolion gael ei chynrychioli gan un AS. Felly, rydym yn gwrthwynebu'r cynigion yn gryf a hoffem ofyn i'r Comisiwn ystyried y cynigion amgen a gyflwynwyd eisoes i'ch swyddfa gan Gwir Anrhydeddus David Jones AS, a'r Aelod o'r Senedd, Darren Millar.

Mae gennyf gopi o fy araith i'w roi i chi, a chopïau o lythyrau Darren Millar a David Jones,

SP: Diolch yn fawr i chi.

GB: lawn.

SP: A gaf i ofyn i chi egluro un pwynt?

GB: Cewch.

SP: Rwy'n meddwl fy mod yn gwybod yr ateb, ond fel y dywedwch, mae David Jones AS a Darren Millar ac eraill wedi cyflwyno cynrychiolaethau.


GB: Ie.

SP: A siaradodd David Jones yn ein cyfarfod yn Wrecsam. A fyddai'n deg dweud, wrth grynhoi'r sefyllfa a'r persbectif lleol, mai'r flaenoriaeth yw cadw Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn yn yr un etholaeth yn hytrach nag unrhyw etholaeth benodol?

GB: Ie, ie, ein cadw gyda'n gilydd.

SP: Ie.


[00:18:10]



- SP: Andrew? Na? Diolch yn fawr i chi.
- GB: Diolch yn fawr i chi.
- SP: Iawn, ni fydd ein siaradwr nesaf yma tan 11 o'r gloch, felly rwy'n cynnig cymryd egwyl yn y cyfarfod tan hynny. Diolch yn fawr i chi.
- SP: Bore da, Steve Phillips wyf i, rwy'n un o'r Comisiynwyr Cynorthwyol, ynghyd â'm cydweithiwr Andrew Clements, sydd ar y dde i mi. Rydym yn asesu'r dystiolaeth o'r gwrandawriad hwn, sef y pedwerydd ledled Cymru, mae un arall i ddod, yn Aberystwyth. Diolch am ddod yma, mae croeso mawr i chi. Yr hyn rydym yn gofyn i chi ei wneud yw dod i'r ddarlithfa i roi wneud eich cyflwyniad, mae gennych ddeng munud a bydd fy nghydweithiwr yn rhoi rhybudd o ddau funud i chi. Yn gryno iawn, ein rôl yw asesu'r holl dystiolaeth, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg neu'n Saesneg, mae popeth yn cael ei drin yn gyfartal; ac wedyn byddwn yn gwneud ein hargymhellion i'r Comisiynwyr ar gyfer unrhyw newidiadau y credwn sydd eu hangen i'r cynigion cychwynnol. Gofynnwn i chi roi eich enw a'ch ardal breswyl ond nid eich cyfeiriad, fel bod gennym syniad o ba etholaeth neu ardal benodol rydych yn cyfeirio ati, a rhwch wybod i ni am unrhyw ymlyniad sefydliadol. Felly, os ydych chi'n siarad fel unigolyn, mae hynny'n iawn, ond os ydych yn cynrychioli sefydliad, dywedwch bwy ydyn nhw. Felly, Mr James, mae'r llawr yn agored i chi, syr.
- CJ: Reit, bore da, diolch yn fawr iawn iti. Clive James, dwi'n byw yn Caernarfon, ac yn cynrychioli fi fy hunan, neb arall. Fel Karl Marx, ni fyddwn yn ymuno â chlwb a fyddai'n fy nerbyn i fel aelod. Mae'r cefndir fi i lawr un, dau, tri, pedwar, mae o jyst cefndir a dwi'n meddwl 'does dim pwynt mynd drosta fo, dim yn newid. Yr unig peth fuaswn yn pwysleisio, y darn profiad perthnasol, fi'n cyfeirio at yn defnydd fi o tair adroddiad o'r chwedegau ac 'wi'n meddwl mae'n dal yn arloesol heddiw yn y, be ydi o, mae o'n chwedeg mlynedd wedyn? Ac, di o, wedi cofio cael paned, wel, Derek Senior, adroddiad lleiafrifol ran o ystod adroddiad modd i ad..., adolygu y llywodraeth lleol yn Lloegr.

[00:20:46]

Reit, yn cynta' falle yn wahanol i lot o pobl, dwi ddim yn erbyn Cymru'n cael llai o seddau yn San Steffan. Achos dwi'n credu, mewn democratiaeth, ddyle' i bob pwrpas, pob aelod etholedig cael yr un nifer o pobl y tu ôl iddyn nhw, felly pan mae o'n codi i'r llawr, mae i gyd yn cynrychioli tua'r un nifer o pobl. Fi'n ymwybodol Arfon ydi etholaeth lleia' y nifer etholwyr, os cofio fi'n iawn, yng Nghymru? A meddwl hwn yn luxury, be 'di maint y lle ac 'wi, 'wi di bod yn frindiau hefo Aelod Seneddol Caerdydd yn yn Arfon ers blynyddoedd maith. Hefyd, mae nifer o aelodau yn San Steffan a pen poblogaeth sifil dros y Deyrnas Cyfunol, un o'r uchaf yn y gwledydd mawr Gorllewin Ewrop a pan ti'n cymryd yn Arglwyddi i mewn, mae e'n ridiculous. Ac hefyd, mae rhaid chi'n cofio bod bodolaeth Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn Caerdydd wedi lleihau cyfrifoldebau Aelodau Seneddol ni yn San Steffan. Felly, 'wi o blaid yr egwyddor y cynnig, ond beth sy'n siom, mae e'n bob pwrpas sgandal, ydy y gerrymander. Gerry, dim byd i wneud hefo Almaenwyr, Gerry oedd swyddog neu cynghorydd yn Chicago ac oedd o'n newid y ffiniau wardiau yn y dinas er mwyn i plaid o, dwi'm yn cofio o'r gweriniaethwr neu






democrat oedd o, ennill mwy o seddi ac y bobl yn erbyn, y rhai, hynny yw, y pobl tlawd fanna, pobl cyfoethog yna ac os oedd tai yn cael eu symud oedd yn symud ffiniau er mwyn un plaid, ei plaid o.

Felly, wi'n trio meddwl, crafu pen, wedi teithio trwy pob lan yr ynysoedd yma, ac pam mae Môn yn cael ei galw'n ynys heddiw? Os mai ddim yn ynys, 'wi'n cymryd ni fydd bont, trydydd bont, faswn wedi cael y beicwyr, y cer, y cerddwyr yn unig dros bont y Borth a cau y dec uchaf ar bont Britannia a jyst mynd ar y trê neu cwch fel ys talwm. 'Di Ynys Môn ddim yn archipeligo fel ynysoedd eraill, lle y'n ni'n gwneud rhan o traee... traethawd hir yn coleg yn Durham, ddim yn ran fel ynysoedd Shetland, lle 'wi di bod yn astudio diwygio Eglwys yr Alban yn ddiweddar. Mae ynys Wyth, sy'n dim yn annhebyg yn wahanol, mae'n rhaid ichi mynd ar cwch i mynd yna a does dim neb yn sôn am ymestyn pier ride allan dros y dŵr i Portsmouth. Ond effaith hwn, ydy cyfyngu y dewisiadau ar y tir mawr. Os ti ddim yn gadael, onibai ti'n cael maid a cael rhyw ynys o rhyw sedd rhywle, mae e'n cyfyngu â synnwyr cyffredin.

Hefyd, mae yna cwyno yng Nghymru, fod y y maint un sedd arbennig, y rhai yn y de hefyd, de-orllewin, yn rhy fawr i fugeilio gan un aelod. Ond, 'wi heb gael yr ystadegau ond jyst edrych ar y mapiau o'r Deyrnas Gyfunol, mae y seddi yn gorllewin yr Alban yn sicr, gogledd Swydd Efrog a Cumbria hefyd yn mawr. Ac siarad hefo cyfnither sy'n byw yn Penrith, ac hi ddim yn clywed pobl yn cwyno, o mae sedd ni'n rhy fawr. Mae o i fyny i aelodau gwneud eu gwaith ag yn oes digidol, mae'n haws nid mwy anodd. Fi'n meddwl mai cael eu tynnu mewn trwy staff cyflogedig enfawr er mwyn bod mwy neu lai yn rhai achosion, gweithwyr cymdeithasol.

'Wi heb mynd yn fy amser i rwan. Pan o'n ni'n gweithio i Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Gwynedd a Sir Gaernarfon, 'wi heb archwilio'r ffiniau arfaethedig yn fanno. Pob dyffryn, cwm a cymharu nhw hefo ffiniau cynghorau cymuned ac ymlaen. Ond, fel desktop study o gogledd Cymru, achos fi'n byw fama, lan yn Caernarfon a Caethro ers 1972. Oedd fi, yn rhieni yn byw hefo 'ny trwy uwchradd a trwy coleg yn Pen y Bont ar Ogwr a Tafarn y Marw wedyn, ac mae'r teulu yn dod o Abertawe. Ac o'n ni'n jyst cymryd y tair ardal fanna, jyst i cael cipolwg ac yn y bôn, rwy'n gweld, mae angen arna i synnwyr cyffredin ac eithrio be yn ni'n dweud am Bangor. 'Chos un peth licio fi cael gwybod am Bangor, mae'n siŵr wedi sôn amdana fo, yw lle yn y proses o gorchymyn neu pe bynnag sy'n dechrau'r proses, corff Prydeinig yn mynd trwyddo fo, oedd Bangor, y sori, Môn yn cael y statws arbennig, oedd yn cael ei troi gan, gwle, gwleidyddion, aelodau o rhyw comisiwn, pwy oedd wedi newid o? 'Chos dwi'n meddwl os, y mae hwn yn haeddu cael cyhoeddusrwydd mawr ac onibai fi'n clywed amdana fo cynt na hwyrach, wi am gofyn cwestiwn Freedom of Information i ddarganfod pryd a pwy oedd yn presennol ac oedd y cofnodion o cyfarfod lle oedd ynys Môn yn cael y statws wirion hon. 'Chos eto, wrth cael paned o siocled da, o'n ni'n meddwl am dwy ynys, Isle of Thanet, Isle of Gren yn gogledd Caint, lle mae'r Medway yn dod lawr i'r Tafwys ac maen nhw yr un, mae natur ar Ynys Môn, ond a mae ganddo fo bontydd i'r tir mawr a rheilffordd, ond dyw e ddim yn cael statws arbennig yn yr adolygiad Prydeinig.

[00:27:13]



Y trydydd elfen, sori, tr, y ia, trydydd elfen, pwysig bo' fi'n sôn amdana fo, ydy enwau. Falle, erbyn rwan gen i mwy o diddordeb o enwau, o p, wel, enwau lleoedd o pob man. 'Wi ddim yn person sy'n credu, fel mae lot yn Cymru yn dweud, fod rhaid i popeth bod yn dwyieithog. Rwy'n meddwl mae 'na lle i rhal pethaU enwau Saesneg, enwau Cymraeg, dibynnu ar y sefyllfa, ond dwi'n argymhell mae pob enwau ar gyfer y seddi yn San Steffan yn uniaith Gymraeg. Ond Cymraeg, enwau sy'n addas i etholwyr di-Gymraeg ynganu a deall. Y peth pwysig ydy peidio osgoi, y o i osgoi pobl yn camddeall pan mae gen ti mwy na un ardal democrataidd o'r un enw, a wnâi roi enghraifft o Waunfawr, ger Caernarfon, mae pobl yn drysu a mae hwn yn c, yn cynnwys aelodau y Cyngor Sir Gwynedd a dros Waunfawr. Maen nhw'n drysu yn lleol a pam angen dryswch? Mae yna digon o enwau hanesyddol o gwmpas sy'n cyfarfod yr anghenion wrth bod yn glir, syml a'n medru cael eu dweud gan Saeson, sy'n medru cael eu trychu i fyny fel Llechwedd oeddwn yn sôn amdano fo, neu bydd pobl yn sôn am enwau sydd ddim yn gywir, hynny yw, gan Talybont, Llandegai a Llwyn y Gegin. Talybont fuasai enw y sedd wedi bod, pwy sydd am dweud, pa ward ti'n sefyll [Aneglur 00:28:59]. O Talybont, ti'n gwybod, Talybont, Llandegai ac Abergynregyn, so 'wi'n meddwl mae 'e'n pwysig cael y enwau uniaith Cymraeg syml unigryw ac mae cymdeithas enwau lleol Cymru yn medru bod yn gymorth i'r comisiwn. Faint 'sgin i ar ôl? Diolch yn fawr iti.

SP: Gorffennwch, ar bob cyfrif.

CJ: O na, rwyf wedi, rwyf wedi.

SP: Rydych chi wedi? Iawn, diolch yn fawr iawn.

CJ: Fi di gweud at gwaelod pwynt dau ac y nodyn dwytha, os ti eisiau fi jyst rhoi y dau nodyn, sylw fanne ac anfon y sgript i mewn eto, fi'n hapus gwneud o.

SP: Diolch yn fawr.

CC: Oedd o 'similar to chocolate'. (chwerthin)

SP: Unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro?

AC: Na, diolch.


SP: Na? Diolch yn fawr.

CJ: Reit, diolch yn fawr iawn.

SP: Rydym yn disgwyl ein siaradwr nesaf am ddeng munud i ddau yn ôl fy rhestr, felly rwy'n cynnig ein bod yn cael egwyl tan chwarter i ddau. Diolch yn fawr iawn.

[00:30:01]

SP: Fy enw i yw Steven Phillips, rwy'n un o'r pedwar Comisiynydd Cynorthwyol sy'n cynorthwyo â'r arolwg hwn. Andrew Clements, fy nghydweithiwr, sydd ar y dde i mi, a'r ysgrifennydd, Shereen Williams, sydd ar y chwith. Croeso mawr i chi. Yr hyn rydym yn ei wneud yw asesu'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar rydym wedi'i chasglu. Dyma'r pedwerydd o bum gwrandawriad ledled Cymru. Byddwn yn llunio



rhai argymhellion i'r Comisiynwyr ar sail y dystiolaeth honno ar ôl i ni gwblhau'r gwrandawiaidau. Mae'r ail gyfnod ymgynghori yn agored ar hyn o bryd, a daw i ben ar 30 Mawrth i gyd-fynd â'r gwrandawiad terfynol yn Aberystwyth. Nid ydym wedi chwarae unrhyw ran mewn llunio'r cynigion cychwynnol, felly rydym yn annibynnol yn hynny o beth, gan drin yr holl sylwadau, boed yn ysgrifenedig, ar lafar, yn Saesneg, neu'n Gymraeg, fel cyfraniadau cyfartal, ac rydym yn ddiolchgar am hynny. Y prynhawn yma, hoffwn wahodd ein siaradwyr i fynd at y ddarlithfa, rhwch eich enw, eich ardal breswyl ond nid eich cyfeiriad, i ni gael rhyw fath o syniad daearyddol cyffredinol, fel petai, o ba ran o'r ardal rydych yn ei chynrychioli, a nodwch a ydych yn siarad fel unigolyn, neu dros ac ar ran sefydliad neu blaid wleidyddol, neu beth bynnag.

Felly, mae ein siaradwr nesaf yn bresennol, ac mae'r llawr yn agored i chi.


EW-J:

Diolch i chi. Elin Walker-Jones ydw i a fi'n gynghorydd dinas a sir ar gyfer ward Glyder ym Mangor, a dwi yma'n siarad yn fel unigolyn, ond hefyd fel cynghorydd dinas a sir Bangor.

Wel, annwyl gyfeillion, wnai ddim o'ch cadw chi'n hir, cri o'r galon sydd gen i ac un mater yn unig sydd dan sylw gen i pnawn 'ma. Mi fyddwch chi'n gyfarwydd a'r hyn dwi'n weud rwy'n siŵr bod pobl eraill wedi gweud yr un peth, ond mae 'e'n fater mor bwysig, mae 'e'n werth ei ddweud eto. Ategaf yr holl sylwadau sydd eisoes wedi ei cyfrannu ynglŷn a'r cynlluniau hurt i hollti cymuned dinas Bangor yn ddwy. Rwyf yn gynghorydd dinas a sir yn cynrychioli etholwyr ward Glyder o fewn ffiniau dinas Bangor. Ward faes trefol yw hi, sy'n ffinio ar yr un llaw hefo Menai, sef cymuned Bangor uchaf, a'i phoblogaeth amrywiol o fyfyrwyr ac eraill, ward Dewi i'r de, fel cymuned Coed Mawr a ward Pentir i'r gogledd-orllewin. Mae pawb sy'n byw yn y cyffiniau yma yn gwybod bod ward Pentir yn cynnwys cymunedau pentrefol fel Glas Enfryn, Caer Rhun a Phentir. Yn ogystal a maes tref Penrhosgarnedd, a bod Penrhosgarnedd yn rhan annatod o fywyd ein dinas ni yma ym Mangor. Mae'r cynlluniau presennol felly sydd ger eich bron, yn hollti ein dinas, yn hollti calon ein cymuned. 'Does dim ffin naturiol rhwng ward Glyder a ward Pentir, ac mae'n hurt ac yn greulon torri llinell fan hyn. Efallai fod y ffin ar bapur yn edrych yn hawdd, ond mae e'n hollti cymunedau. A dangoswyd hyn yn glir yn ystod y pandemig pan oedd dinas Bangor dan glo a phobl yn methu croesi'r ffordd hyd yn oed ar ffordd Caergybi, na mynd i'r siop agosaf heb dorri'r amodau'r clo.

[00:34:00]

O dan y cynlluniau presennol, mae cymuned Penrhosgarnedd yn aros efo gweddill Arfon yn etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionydd a chymuned dinas Bangor yn cael ei chynnwys yn etholaeth Aberconwy. Ond, nid cymuned bentrefol ar gyrion dinas Bangor mo Penrhosgarnedd, rhan annatod o dapestri'r ddinas. Allwch chi ddim creu ffin a thorri Penrhosgarnedd allan o ddinas Bangor. Mae pobl Penrhosgarnedd yn siopa ym Mangor, mae plant Penrhosgarnedd yn mynd i'r ysgol ym Mangor, cymaint ohonynt yn mynychu Ysgol y Garnedd, er enghraifft, sydd o fewn ffiniau'r ddinas. Clybiau a mentrau dinas Bangor yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc Bangor i gymdeithasu, a dysgu sgiliau newydd. Mae pobl Penrhosgarnedd yn gweithio ym Mangor, cymdeithasu ym Mangor a mynychu capeli ym Mangor. Ysbyty Gwynedd wedyn, yn un o brif gyflogwyr pobl Bangor o fewn ward Pentir ac felly o dan y cynlluniau presennol, mi fydd yn etholaeth Dwyfor



Meirionydd tra fod nifer helaeth o'r staff yn byw ym Mangor yn etholaeth arfaethedig Aberconwy. Ysbyty Gwynedd yw'r rheswm pam fod cymaint o bobl eisiau byw ym Mangor. Mae 'na gartre gofal ychwanegol o'r enw Cae Garnedd wedi ei leoli ym Mhenrhosgarnedd, ond mae'r rhan helaeth o'r trigolion yn dod o Fangor (chwerthin). Ym meddwl pobl Bangor, a'n gwasanaethau ni hefyd, nid oes ffin rhwng Bangor a Phenrhosgarnedd.

O dan y cynlluniau presennol, mi fyddai Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaethau i bobl Penrhosgarnedd o fewn etholaeth Dwyfor Meirionydd a phobl Bangor yn etholaeth Aberconwy. Pa effaith fyddde' hyn yn ei gael ar wasanaethau a'r cydweithio presennol gwych sydd rhwng y cynghorwyr? Traffic diddiwedd ffordd Penrhos, er enghraifft, mae hyn yn broblem aruthrol i etholwyr tair ward ac rydym yn cydweithio i drio datrys y broblem erchyll hon. Faint yn fwy o rwystrau fyddai ger ein bron i gydweithio pe byddem yn delio hefo dwy etholaeth, dau gyngor a'r ffin rhwng tŷ a thŷ o un ochr i'r lôn i'r ochr arall? Mae angen cynrychiolaeth ar bobl Bangor gan aelodau sy'n eu deall. Mae Aberconwy yn ardal wahanol iawn, arfordirol a mwy Seisnigaidd. A phobl Bangor yn hanesyddol a thraddodiadol yn rhan o Arfon, ar Fôn. Erfyniaf arnoch felly i ail feddwl, i ail ystyried eich cynlluniau ac i gadw wardiau dinas Bangor, gan gynnwys Penrhosgarnedd, hefo'u gilydd mewn un etholaeth a pheidio hollti un cymuned, cymuned dinas Bangor, yn ddwy. Diolch yn fawr.

SP: Diolch yn fawr iawn. Cwestiynau, sylwadau? Na? Diolch.

EW-J: Diolch.

SP: A yw Mr Thoupel yma? Iawn.


Nid wyf yn gwybod a glywsoch chi'r cyflwyniad, ond Steven Phillips wyf i, rwy'n un o'r Comisiynwyr Cynorthwyol, ac yn cadeirio'r prynhawn yma. Fy nghydweithiwr, Andrew Clements, sydd ar y dde i mi, a Shereen Williams ar y chwith, sef ysgrifennydd yr arolwg. Rydym yma i edrych ar y dystiolaeth, a chasglu dystiolaeth, ac ar ôl cwblhau'r gwrandawiadau cyhoeddus ledled Cymru ar ddiwedd y mis, byddwn yn gwneud rhai argymhellion. Dyma'r pedwerydd gwrandawriad o bump. Mae croeso i chi fynd at y ddarlithfa, rhowch eich enw, eich ardal breswyl a dywedwch a ydych chi'n cynrychioli sefydliad neu'n siarad fel unigolyn. Mae pob siaradwr yn cael deng munud, bydd fy nghydweithiwr yn rhoi rhybudd o ddau funud i chi, os bydd angen, ac mae'r llawr yn agored i chi, syr.

LT: Diolch yn fawr. Fy enw yw Ludwig Thoupel, rwy'n byw yng Nglasinfryn, sydd y tu allan i ddinas Bangor, a daw o fewn, mae'n ddrwg gen i, mae yn ward Pentir a fydd, yn ôl y cynigion presennol, yn rhan o etholaeth Dwyfor Meirionnydd. Felly, a gaf i ddechrau?

SP: Cewch, yn siŵr.

[00:38:52]

LT: Iawn. Y pwynt yr hoffwn ei wneud yw bod ward Pentir yn cyfrif fel Bangor at ddibenion cyfeiriad post. Rwy'n byw ym Mhentir, rwy'n gweithio yma, [anghlywadwy 00:39:02] yn ninas Bangor. Mae'r rhan fwyaf o fy nghymdogion yn gweithio yn ninas Bangor hefyd. Mae trigolion Pentir wedi'u cysylltu gan



gyflogaeth, a chysylltiadau cymdeithasol, yn ogystal â gwasanaethau logistaidd, â dinas Bangor. Felly, byddwn yn dweud nad yw'n gwneud llawer o synnwyr i wahanu Pentir oddi wrth ddinas Bangor a'n cysylltu â Phen Llŷn a Chaernarfon. Er ein bod yn agos iawn at Gaernarfon, mae'n gymuned wahanol ac yn wahanol o ran cysylltiadau, cyflogaeth, ac yn gymdeithasol, mae'n bellach i ffwrdd oddi wrth Bentir na dinas Bangor, lle'r ydym wedi'n dosbarthu. Felly, rwy'n cynnig bod y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystyried a ddylid symud ward Pentir, ward fach Pentir, allan o etholaeth Dwyfor Meirionnydd i etholaeth arfaethedig Aberconwy. Rwyf wedi edrych ar niferoedd yr etholwyr yn y daenlen a roddwyd ar-lein. Mae 2,159 o etholwyr yn ward Pentir, ac wrth symud y ward o Ddwyfor Meirionnydd i Aberconwy, byddai nifer yr etholwyr yn etholaeth arfaethedig Aberconwy yn cynyddu o 69,909 i 72,068, a nifer yr etholwyr yn Nwyfor Meirionnydd yn gostwng o 71,962 i 69,803. Byddai'r ddwy etholaeth yn aros rhwng isafswm ac uchafswm nifer yr etholwyr, sef 69,724 a 77,662, ond bydd gan yr etholwyr ym Mhentir gynrychiolaeth yn San Steffan sy'n gwneud mwy o synnwyr iddynt yn ddaearyddol, wrth fod â chysylltiad, nid yn unig â dinas Bangor, ond â phentrefi cyfagos Bethesda, Mynydd Llandegai a Thregarth. Felly, ie, ni fyddem yn sefyll allan mewn etholaeth wahanol. Yn olaf ond nid yn lleiaf, pe bai Bangor gyfan, gan gynnwys ward Pentir, yn cael ei chynnwys yn yr etholaeth hon, byddwn hefyd yn cynnig y dylid newid enw'r etholaeth arfaethedig o Aberconwy i Gonwy a Bangor neu Conwy and Bangor yn Saesneg.

SP: Diolch yn fawr i chi. Unrhyw gwestiynau neu bwyntiau i'w hegluro?


AC: Na, diolch yn fawr.

SP: Na, diolch yn fawr, syr. A oes unrhyw un o'r llawr sy'n dymuno siarad? Os na, nid ydym yn disgwyl ein siaradwr nesaf tan tua phump o'r gloch, felly rwy'n cynnig bod y gwrandawriad yn cymryd egwyl. Diolch.

LT: Diolch.

[00:41:29]

SW: Dyna ni. Prynhawn da a chroeso yn ôl i sesiwn prynhawn y pedwerydd gwrandawriad cyhoeddus gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer arolwg 2023. Fy enw yw Shereen Williams, rwy'n ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru, ac rwy'n cadeirio'r rhan hon o'r gwrandawriad cyhoeddus. Y fformat ar gyfer heddiw yw ein bod yn gwahodd ein cyfranwyr i ddod at y ddarlithfa, cyflwynwch eich hun, rhwch eich enw a'ch ardal breswyl. Peidiwch â rhoi eich cyfeiriad, dim ond eich ardal breswyl, a nodwch os ydych yn siarad fel unigolyn neu ar ran grŵp, sefydliad neu blaid wleidyddol. Mae'r sesiwn yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio at ddibenion trawsgrifio. Wedyn, bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn edrych drwy'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, sy'n digwydd ar hyn o bryd. Roddir yr un pwys i'r dystiolaeth, boed yn gyflwyniadau llafar neu ysgrifenedig, yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yna, byddant yn paratoi adroddiad argymhellion i'r Comisiynwyr Ffiniau, a fydd wedyn yn eu hystyried wrth iddynt ddrafftio eu cynigion diwygiedig sydd i'w cyhoeddi ym mis Hydref eleni. Byddwch yn cael deng munud i roi eich tystiolaeth i ni, ac ar gyrraedd wyth munud, bydd fy nghydweithiwr yn rhoi rhybudd dau funud i chi, ac ar gyrraedd deng munud, byddaf yn gofyn i chi gloi a bydd gennych 30 eiliad i wneud hynny. Felly,



rwy'n gwahodd ein siaradwr nesaf, Mr John Rooney, at y ddarlithfa i roi ei dystiolaeth.


JR: Diolch yn fawr. Prynawn da, prynawn da i chi. Fy enw yw John Rooney, rwy'n byw yn Neganwy, sydd rhwng Llandudno a Chyffordd Llandudno, dylwn ddatgan fy mod yn Ddirprwy Gadeirydd Gwleidyddol Cangen Aberconwy o'r Blaid Geidwadol, ond nid yw'r pwyntiau rwy'n eu gwneud yn cyfateb i safbwyntiau'r blaid o reidrwydd, ac rwy'n eu gwneud fel unigolyn.

I ddechrau, cytunaf ag amcan y Comisiynwyr Ffiniau o gael etholaethau lled debyg o ran nifer yr etholwyr. Fel egwyddor gyffredinol, dylai pleidleisiau ledled Cymru fod yn gyfartal o ran eu pwys. Rwy'n mynd i edrych ar ddwy etholaeth, i bwysleisio'r pwynt hwn. Arfon yw un ohonynt, â 40,000 o etholwyr ar hyn o bryd; ac ar ben arall y raddfa, mae etholaeth yng Nghaerdydd â 74,000 o etholwyr, sy'n wahanfaeth sylweddol rhwng y ddwy etholaeth. Gallai rhywun ddeall etholwyr yn yr etholaeth yng Nghaerdydd yn meddwl bod yn rhaid iddynt fwrw 74,000 o bleidleisiau er mwyn anfon un Aelod Seneddol i San Steffan, sy'n sefyllfa wahanol iawn i etholwyr yn Arfon. Rwyf wedi gwneud cymhariaeth hefyd â Manceinion Fwyaf. Os edrychwch ar Fanceinion Fwyaf, y cyfartaledd ar draws yr etholaethau yno yw 75,000 o etholwyr, felly rwy'n meddwl bod achos cryf iawn dros gynyddu nifer yr etholwyr ar gyfartaledd mewn etholaethau ledled Cymru, gan fod sail gref dros wneud hynny.

Mae fy ail bwynt yn edrych ar nifer y cynrychiolwyr etholedig i'r deddfwrfeydd sydd gennym yng Nghymru. Mae 60 o Aelodau Senedd Cymru a 40 o aelodau San Steffan ar hyn o bryd, felly dyna gyfanswm o 100 o gynrychiolwyr etholedig ar gyfer y ddwy ddeddfwrfa. Ac mae hynny ar gyfer poblogaeth o 3.1 miliwn. Unwaith eto, rydw i'n mynd i ddewis ardal Manceinion Fwyaf fel cymhariaeth. Mae gennych boblogaeth debyg iawn yno, ychydig bach dros 2.8 miliwn. O gymharu, dim ond 27 Aelod Seneddol San Steffan sydd ganddynt, felly ar y gymhariaeth honno, mae achos sylweddol dros leihau nifer yr ASau Cymreig yn San Steffan. Mae 40 ar hyn o bryd, a chynigir gostwng y nifer i 32. Yn fy marn i, mae tystiolaeth gref dros wneud hynny, ac felly byddwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r Comisiwn Ffiniau ar y pwynt hwnnw.

[00:46:27]


Rwyf wedi edrych ar rai o'r cynrychiolaethau ysgrifenedig eraill a wnaed, ac wedi edrych yn arbennig ar y gwrthwynebiadau a ddaeth o'r hyn a alwaf yn gefnwlad Bangor; ac mae'n ddealladwy, efallai, bod gwrthwynebiadau i'r newidiadau sy'n seiliedig ar iaith neu gymuned yn yr ardal honno. Mae'n rhesymol ei disgrifio, efallai, fel cymuned fwy Cymreig nag ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru, ac mae hynny'n gymhariaeth deg. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud y pwynt bod pob un ohonom yng Nghymru mewn cymuned Gymreig ac mae'n amhriodol gwahaniaethu rhwng un rhan a rhan arall. Rydym i gyd yn Gymry yng Nghymru, gyda'n gilydd. Mae llawer ohonom yn siarad Cymraeg, dyma fy ail iaith, ac mae'n rhaid i mi ddefnyddio'r Gymraeg bob diwrnod yn y gwaith. Rwy'n ystyried fy hun yn rhan annatod o wead y gymdeithas Gymreig, ond nid wyf o reidrwydd yn pleidleisio dros blaid genedlaethol neu blaid arall, ac eithrio fy mhlaid fy hun, ac ni fyddwn ar fy mhen fy hun yn pleidleisio felly mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru. Ar hyn o bryd, byddai etholwyr yn etholaeth Aberconwy yn gallu rhoi'r un ddadl



neu'r un gwrthwynebiad. Os edrychwch ar Landudno yng ngogledd etholaeth Aberconwy, ac wedyn ar dref i'r de, Llanrwst. Byddai preswylwyr Llanrwst yn dadlau'n weddol gryf ac yn ddigon dilys eu bod yn gymuned wahanol iawn i Landudno. Ond mae'n rhaid i chi gael etholaeth sy'n gydlynus. Mae'r cynigion radical a gyflwynwyd yn ystumio'r ffiniau presennol ac mae posibilrwydd y gellir gwneud hynny i gyflawni canlyniad etholiadol penodol. Gallech ddeall y pwynt hwnnw'n cael ei gyflwyno, ond mae term ar gyfer hyn, a'r term yw cyffindwylo, sef sicrhau canlyniad drwy newid ffiniau etholiadol fel y gellir cyflawni canlyniad penodol. Nid yw hynny'n ddymunol o gwbl, a datblygodd y term yng Ngogledd Iwerddon, lle'r oedd problemau hanesyddol sylweddol yn deillio o hynny, a byddwn yn annog y Comisiwn Ffiniau yn gryf i wrthod unrhyw rai o'r cynigion mwy radical a gyflwynir wrth ystyried y materion hyn.

Gan droi fy sylw at etholaeth arfaethedig Aberconwy, fel y dywedais ar y dechrau, mae'n gwbl resymegol cydbwyso nifer yr etholwyr neu gael niferoedd tebyg iawn mewn etholaethau yng Nghymru. Wrth gwrs, derbynnir rhywfaint o amrywiad, ond dylid anelu at gael ystod gul o amrywiad o amgylch cyfartaledd a fyddai'n berthnasol ledled pob etholaeth yng Nghymru. Mae'r cynnig yn osgoi rhannu Aberconwy, sy'n ganlyniad dymunol, mae'r etholaeth yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, ac mae'r cynnig yn ddim mwy nag ychwanegiad. Yng Ngogledd Cymru, ceir cysylltiadau naturiol i'r dwyrain a'r gorllewin, yn hytrach nag i'r gogledd a'r de, felly mae cynnwys Bangor fel rhan o'r cynigion ar gyfer etholaeth newydd Aberconwy yn gwbl ymarferol, a beth bynnag, mae cynsail hanesyddol yn bodoli, oherwydd hyd at 2010, roedd Bangor yn rhan o etholaeth Conwy, fel yr oedd ar y pryd, sef etholaeth Aberconwy i raddau helaeth. Felly, roedd Bangor, yn hanesyddol, yn rhan o'r etholaeth sy'n cael ei chynnig. Fel Ceidwadwr datganedig, byddech yn disgwyl i mi fod â rhywfaint o wrthwynebiad ynghylch cynnwys Bangor. Yn hanesyddol, mae Bangor yn gyffredinol, ac rwy'n pwysleisio yn gyffredinol, wedi tueddu tuag at y Blaid Lafur, felly byddech yn meddwl fy mod i, yn naturiol, yn gwrthwynebu hynny. Nid wyf yn gwrthwynebu oherwydd rwyf o'r farn bod y Comisiwn Ffiniau yn ddiuedd yn hyn o beth ac, wyddoch chi, rwyf o bosibl yn derbyn (chwerthin) effaith andwyol o safbwynt y Ceidwadwyr. Felly, serch hynny ac er hynny, rwy'n cytuno â'r cynnig i gynnwys Bangor. Hoffwn wneud dau bwnt amodol ynghylch y cynnig. Mae'n ymddangos yn rhyfedd bod Penrhosgarnedd, yn unig, wedi'i hepgor o Fangor a chynigir ei osod....

[Diwedd y trawsgrifiad 00:52:17]







**Comisiwn Ffiniau  
i Gymru**

---

**Boundary Commission  
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.  
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan  
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819  
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521  
E-bost: [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2022